Ysgol Bod Alaw, Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 7ST
01492 530420 | swyddfa@bodalaw.conwy.sch.uk | www.ysgolbodalaw.org | @Ysgolbodalaw
Pennaeth: Mr Dafydd Rhys | Dirprwy Bennaeth: Mrs Elin V Hutchinson / Mrs Sam Kendall

06/10/2023
Annwyl Deulu,

**CEIR**
Diolch i bawb am gymryd sylw o'r rheol dim ceir ar safle'r ysgol – rydym yn gwerthfawrogi hyn er mwyn diogelwch eich plant chi.

**PRESENOLDEB**
Hoffwn ddiolch i chi hefyd am wneud yn siwr fod eich plant yn cyrraedd yr ysgol ar amser. Byddaf yn cysylltu gyda rhieni y plant hynny sydd yn hwyr yn aml er mwyn cynnig cefnogaeth.

**NOSON WYBODAETH**
Yn dilyn y Noson Wybodaeth gafodd rhieni U6 cyn yr haf, bydd Noson Wybodaeth yn cael ei drefnu ar gyfer rhieni plant U9 ac U12 ar brynhawn dydd Mawrth 7.11.23 rhwng 4-5yp. Bydd cyflwyniadau ar Lythrenedd, Rhifedd, e-ddiogelwch ac Addysg Rhyw a Pherthasedd. Bydd y noson hefyd yn gyfle i chi gael clywed mwy am beth ydym yn gweithio arno ar draws yr ysgol, gweld dosbarthiadau eich plant a chael sgwrs gyda'r athrawon dosbarth.

**NOSON RHIENI**
Erbyn hyn, mae dyddiad ac amser wedi dod allan i bawb er mwyn i chi gael sgwrs gyda athrawon dosbarth eich plentyn. Cofiwch gysylltu os nad ydych yn gallu cyrraedd ar y dyddiad/amser,

**GWASANAETH DIOLCHGARWCH**
Eleni rydym yn cynnal Gwasanaeth Diolchgarwch yr Uned dan 12 ar brynhawn dydd Mercher 18.10.23 yn Eglwys St Pauls am 1.30yp.

Bydd y Meithrin, Uned dan 6 ac Uned dan 9 yn cynnal Gwasanaethau a Chyngherddau Nadolig a bydd manylion am rhain yn dod allan yn fuan.

**MWY O DDYDDIADAU**

- Taith Bl6 i Gaerdydd — 23.10.23 – 25.10.23
- Hanner Tymor — 30.10.23 – 5.11.23
- Ysgol yn ail agor — Dydd Llun 6.11.23
- Noson Wybodaeth U9 ac U12 — 7.11.23 4-5yp
- Gwahoddiad i rhieni helpu gyda'r — 14.11.23
- Ysgol Goedwig ac Ardaloedd Tu Allan (Mwy o wybodaeth i ddilyn)
- Plant Mewn Angen (Mwy o wybodaeth i ddilyn) — 17.11.23

Ysgol Bod Alaw, Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 7ST
01492 530420 | swyddfa@bodalaw.conwy.sch.uk | www.ysgolbodalaw.org | @Ysgolbodalaw
Pennaeth: Mr Dafydd Rhys | Dirprwy Bennaeth: Mrs Elin V Hutchinson / Mrs Sam Kendall

Diolch yn fawr,

Dafydd Rhys a Staff Ysgol Bod Alaw